


Llwybr Datblygu'r Gymraeg



2023-24

Hedydd Jones

hedydd.jones@pcydds.ac.uk

Darlith 9

Dydd Mawrth 30^{ain} o Ionawr
2024

Nod ac amcanion

- Rhoi adborth ar waith dysgwyr.
- Cynnydd y dysgwr.
- Arferion da wrth roi adborth.
- Cwricwlwm i Gymru a'r Camau Cynnydd.






Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


RHAGORIAith

CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Adborth






Canmoliaeth a
tharged




Geiriau
canmol



Eithaf da
Da iawn
Archerchog
Bendigedig
Llongyfarchiadau
Rhagorol
Gwych

Gwaith gwyh
Gwaith taclus
Gwaith bendigedig
Gwaith da
Gwaith rhagorol


Dim treigladd gan ei fod yn disgrifio
enw gwrywaidd.





Ymdrech dda

Treiglad meddal gan ei fod yn
disgrifio enw benywaidd.



Gwell o lawer





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORIAith

CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE


Gwell



Ddim yn ddrwg




Gorchmynion eto!



Daliwch ati!

Dal ati!

Gorchmynion eto!



Ceisiwch eto!


Ceisia eto!



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORIAith


CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



Ymestyn....

Rydych chi'n gweithio'n dda
heddiw.

Rwyt ti'n gweithio'n dda
heddiw.






Rydych chi **wedi** gweithio'n
dda heddiw.

Rwyt ti **wedi** gweithio'n **dda**
heddiw.





Diolch am dy
waith caled!
Diolch am eich
gwaith caled!







Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

RHAGORIAith


CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE



YMESTYN



Dylech chi...



Dylech chi...

...**g**anolbwyntio.



...**w**irio eich gwaith.



...**o**fyn am help.



...ganolbwyntio.



Dylet ti...

...wirio dy waith.



...ofyn am help.





Treigladau Meddal



canolbwyntio



ganolbwyntio

gwirio




_wirio

gofyn



_ofyn





Hoffwn i
Hoffwn i i chi...





Hoffwn i i chi...



...**g**anolbwyntio.

..**w**irio eich gwaith.

...**o**fyn am help.



Hoffwn i i ti...



...**g**anolbwyntio.

..**w**irio dy waith.

...**o**fyn am help.

Sut i agor sesiwn

I ddechrau...

Heddiw...
Bore 'ma...
Prynhawn 'ma...
Wythnos yma...
Tymor yma...

byddwn ni'n...
rydyn ni'n mynd i...
gallwn ni...
dw i eisiau i chi...
rhaid i ni...
dylen i...

Treigladd MEDDAL	
p	b
t	d
c	g
b	f
d	dd
g	/
ll	l
m	f
rh	r

* Treigladd meddal
ar ôl rhagenw *
(pronoun)

edrych (ar)	
dweud	ddweud
astudio	
adolygu	
dechrau	ddechrau
ymchwilio (i)	
meddwl (am)	feddwl
cofio	gofio
gorffen	orffen
rhannu	rannu
trafod	drafod
siarad (am)	
gofyn	ofyn
ateb	
darllen	ddarllen
cwblhau	gwblhau

Beth?

thema
thema newydd
llyfr
llyfr darllen
syniadau
cwestiwn
cwestiynau
ateb
atebion
gwaith
adnoddau
y gwaith



Ymadroddion Defnyddiol

Ga i un?
Eto, os gwelwch yn dda
Unwaith eto
Mae'n flin 'da fi.
Esgusodwch fi.
Beth ydy ... yn Gymraeg?
Does dim ots.
Yn araf, os gweli di'n dda.
Yn araf, os gwelwch yn dda.
Wyt ti eisiau...?
Ydych chi eisiau..?
Wnei di..?
Wnewch chi...?
Wyt ti wedi gorffen?
Ydych chi wedi gorffen?
Pwy sy'n cofio?
Tro pwy sy' nesaf?
dy dro di
eich tro chi

Unigol

Dere 'ma
Dewch yma
Cer
Ewch
Bydda
Byddwch
Gwranda
Gwrandewch
Meddylia
Meddylwch
Cerdda
Cerddwch
Tro
Trowch
Eistedda
Eisteddwch
Ysgrifenna
Ysgrifennwch

Cytuno ar nod y wers

Nod y wers heddiw ydy ...

Heddiw rydyn ni'n mynd i...

Yn y wers yma, byddwn ni'n adolygu...

Bore 'ma rydw i eisiau i chi feddwl am...

Cloi gwers

Ydych chi wedi mwynhau?

Beth ydych chi wedi fwynhau?

Beth ydych chi wedi ddysgu?

Ydych chi'n cofio...?



[Cwricwlwm a threfniadau asesu newydd
2022](#)

Rhaid i adborth
effeithiol fod yn ...

ddealladwy.

galonogol.

adeiladol.

glir.

amserol.

gyson.

gywir.

Pwrpas rhoi adborth ydy...

gwneud i
ddysgwyr feddwl.

cyfeirio at y
meini prawf
llwyddiant.

canmol
ymdrech

helpu'r
dysgwr
i wneud
cynnydd.

dangos sut
mae symud
ymlaen.

helpu'r dysgwr
i ddeall y
gwaith yn well.

helpu'r
dysgwr i
werthuso.

Cyfle i drafod:Dulliau asesu.



Beth ydy eich
profiadau chi?



Marcio

Dylai adborth cadarnhaol a chyson gryfhau cymhelliant y disgyblion. Wrth farcio ni ddylid gor-gywiro, mae hyn yn tanseilio hyder yr unigolyn. Rhaid canolbwyntio ar gywiro rhai gwallau ar y tro. Rhaid meddwl felly am y gwallau yn nhrefn blaenoriaeth ac yn unol â gallu'r disgybl. Gellir defnyddio llythrennau neu symbolau yn ymyl y ddalen neu ar y gwaith ei hun sy'n ddealladwy i'r disgyblion ac yn unol â pholisi marcio'r ysgol/adran.

Wrth ddrafftio gwaith gall disgyblion farcio eu gwaith unigol ynghyd â gwaith eu cyfoedion yn adeiladol. Bydd hyn yn eu gwneud yn llai dibynnol ar yr athro/athrawes ac yn meithrin cyfrifoldeb dros gywirdeb ieithyddol. Bydd y disgybl felly yn fwy tebygol o sylwi ar y cywiro. Anogir iddynt wneud hyn drwy ddefnyddio pensil.

Côd Marcio

S /	Cam sillafu (geiriau syml a thermau pynciol)
	Atalnodi (atalnod llawn, priflythrennau)
P //	Paragraff newydd
Uwchleuo	Ail ysgrifennu un frawddeg flêr
Cyst /	Gwall cysrawen
Tr	Cam dreigladd: gosod bwa rhwng dau air i ddynodi'r treigladd, e.e. <u>fy gwaith</u>
()	Berf anghywir
I.S.	Idiom Saesneg
G.S.	Gair Saesneg
✓✓	Sylwadau da

allan o 'Gair yn Gymorth'

Cyfle i drafod: Rhannu arferion da

Arferion da

- Annog disgyblion i wirio a golygu eu gwaith eu hunain/cyfoedion cyn ei gyflwyno i'r athro
- Uwchleuo 5 gwall i'w cywiro
- Gwneud un dymuniad ieithyddol wrth ddilyn polisi Dwy Seren a Dymuniad
- Defnyddio Cysill
- Ail ysgrifennu un frawddeg flêr

allan o 'Gair yn Gymorth'

Adborth.



Tynnu sylw at y
meini prawf
llwyddiant

Adborth.



Rhoi adborth ar
lafar?

Adborth.



Adborth
ysgrifenedig

Adborth.



Canolbwyntio ar
adran o'r gwaith
e.e. blwch melyn

Adborth.



Adborth
dosbarth cyfan
ar un daflen

Adborth.

Kahoot!

Tasgau
cystadleuol

Adborth.



Cwestiynu'n
effeithiol

3. Rhoi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig yn cynnwys targedau ystyrlon unigol:

Mae angen i'r adborth llafar ac ysgrifenedig gynnwys sylwadau adeiladol sy'n nodi cryfderau a thargedau penodol ar sut i wella mewn iaith addas i allu'r disgybl. Dylai'r sylwadau fod yn seiliedig ar yr amcanion dysgu a'r meini prawf a osodwyd a dylid rhoi amser digonol i ddisgyblion ystyried y sylwadau a wnaed, gwneud cywiriadau a defnyddio'r adborth er mwyn gwella eu gwaith.

Iaith Dargedu

Rhan annatod o'r broses gosod targedau yw bod yr athro yn gosod targedau i sicrhau cynnydd yng ngwaith y disgybl.

Berfau Perthnasol Targedu (i'r athro)

Modd Gorchmynnol

Ffurfiau cwmpasog

Mae'n rhaid i ti ddarllen

Mae'n rhaid i ti ysgrifennu

Mae'n rhaid i ti esbonio

Mae angen i ti sicrhau

Mae angen i ti drefnu

Mae angen i ti adolygu

Mae angen i it geisio

Mae angen i ti wirio

Mae angen i ti roi

Ffurfiau cryno (Ti)

Darllena

Ysgrifenna

Esbonia

Sicrha dy fod yn ...

Trefna dy waith ...

Adolyga'n drwyadl ...

Ceisia


Gwiria

Rho

Adborth.



Eich tro chi...



<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/trefniadau-asesu/>

Darlith nesaf:
6^{ed} o Chwefror 2024
11- 1 y.p.

